Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Mae pob Aelod etholedig a chyfetholedig yn rhwym wrth Gôd Ymddygiad. Rhaid i bob Awdurdod Lleol fabwysiadu Côd Ymddygiad ar gyfer ei aelodau ar sail y Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008. Cynnwys y Côd enghreifftiol gyfres o safonau sylfaenol gorfodol ar gyfer y ffordd y dylai aelodau ymddwyn, yn eu bywydau swyddogol ac (mewn rhai achosion) yn eu bywydau personol hefyd.

Mae'r Côd yn cynnwys darpariaethau megis 'trin eraill â pharch' a thalu sylw dyledus i'r egwyddor i drin pawb yn gyfartal.

Cynnwys y Côd hefyd ddarpariaethau yn ymwneud â bwlian a chodi ofn, datgelu gwybodaeth gyfrinachol a defnyddio swydd i gael mantais annheg.

Mae'r Côd yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr Aelodau i ystyried a oes ganddynt "fudd personol" (h.y. gwrthdaro buddiannau posib) mewn mater neilltuol, i'r graddau y dylid datgelu bodolaeth a natur y budd hwnnw. Pan fo budd o'r fath yn bodoli mae'r Côd yn nodi i ba raddau, os o gwbl, y gall yr aelod barhau i gyfrannu i fusnes sy'n gysylltiedig â'r budd.

Mae'r Côd hefyd yn darparu ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch.

Mae copi o'r Côd ar gyfer aelodau ac aelodau cyfetholedig Cyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar ein gwefan:
http://online.carmarthenshire.gov.uk/cccapps/documents/constitution/Part5-1.pdf

neu gellir cael copi gan y Swyddog Monitro neu (yn achos cyngor cymuned) gan Glerc yr awdurdod perthnasol.

Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â'r grym i ymchwilio i gwynion ynghylch y Côd Ymddygiad. Os credwch fod aelod wedi torri'r Côd, neu y gallai fod wedi'i dorri, â'r Ombwdsmon y dylech gysylltu. Mae'r manylion cyswllt wedi'u nodi isod.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5LJ
Rhif ffôn (01656) 641150
E-bost: ask@ombudsman-wales.org
Gwefan: www.ombudsman-wales.org